Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Trelyn

Commercial Street
Pengam
Y Coed-duon
NP12 3ST

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Trelyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Trelyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 208 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 155 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 32.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 06/09/2010 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 22/03/2018 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 03/11/2025 |

Daw’r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r awyrgylch yn Ysgol Trelyn yn un groesawgar. Mae’n gymuned gynhwysol a hapus lle mae parch, caredigrwydd a chefnogaeth yn greiddiol i’r berthynas rhwng disgyblion a staff. Mae’r tîm yn gweithio’n gydweithredol, gan ddangos proffesiynoldeb cyson ac esiampl gadarn i’r disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn ardderchog.

Mae’r pennaeth, gyda chymorth y tîm arweinyddol, yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Maent yn cynnig cyfeiriad strategol clir, gan sicrhau amgylchedd diogel sy’n meithrin Cymreictod a balchder yn hunaniaeth y disgyblion. Mae’r staff a llywodraethwyr yn rhannu’r weledigaeth hon ac yn cyfrannu’n weithgar at ethos cadarn yr ysgol. Yn ogystal, mae’r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn herio’n adeiladol, gan sicrhau cyfleoedd gorau i’r disgyblion.

Mae datblygiad yr iaith Gymraeg yn gryfder, gyda disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio’r iaith yn naturiol. Drwy addysgu cyson, mae disgyblion yn gweithio’n hyderus ac mae eu syniadau yn sail i gynllunio’r athrawon. Mae’r cwricwlwm yn eang ac mae’r profiadau dysgu yn cynnig lefel briodol o her a chefnogaeth. Mae’r cynllunio’n sicrhau dilyniant adeiladol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn ogystal â medrau eraill. Trwy ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol, mae’r sesiynau dysgu’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Er bod ychydig iawn o athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddatblygu’r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, nid yw hyn wedi ei wreiddio’n llawn hyd yma.

Mae’r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol â’r rhieni a’r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn elwa ar ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr a chyfleoedd i gymdeithasu â thrigolion yr ardal.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Cryfhau’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae‘r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae’r arweinwyr angerddol yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn fod pob disgybl yn cael addysg mewn amgylchedd cartrefol a diogel er mwyn datblygu Cymreictod a balchder o ran eu hunaniaeth a threftadaeth. Cânt eu cefnogi’n frwd gan staff ymroddgar sy’n rhannu’r weledigaeth hon yn effeithiol gyda’r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr mewn amgylchedd croesawgar. Mae ymdeimlad dwfn o berthyn yn cael ei feithrin, gan greu elfen deuluol hyfryd lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a’u trin yn deg. Mae bron pob disgybl yn cydweithio’n llwyddiannus, gan gefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a dyfalbarhau’n gyson.

Mae’r pennaeth yn fodel rôl arbennig sy’n cael ei pharchu a’i gwerthfawrogi gan holl randdeiliaid yr ysgol. Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar gyfer staff, disgyblion a’r pennaeth ei hun. Mae hi’n sicrhau bod lles a baich gwaith staff yn cael eu hystyried yn ofalus ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi’n fedrus. Mae rolau a chyfrifoldebau’n cael eu dosbarthu’n synhwyrol, gan gyfrannu at ddarpariaeth gynhwysfawr. Mae lles y disgyblion yn ganolog i waith tîm cryf, ac mae staff ar bob lefel yn dangos agweddau proffesiynol cyson ac yn gosod esiampl dda i’r disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu gwaith yn ardderchog. Ynghyd â hynny, mae gweithdrefnau’r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd yn gadarn.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant o ddatblygu a chefnogi dysgu proffesiynol bwriadus staff. Maent yn rhannu syniadau a mabwysiadu arferion newydd ar y cyd yn bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu’n dda at ethos dysgu’r ysgol. Mae gan yr holl staff berchnogaeth dros brosesau gwerthuso, sy’n arwain at ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i’w datblygu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les a chynnydd y disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cyflawni’n dda o’u mannau cychwyn.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn adnabod yr ysgol a’r gymuned yn dda. Trwy ymweld yn rheolaidd a thrafod gyda staff a disgyblion, maent yn gweithio’n frwdfrydig i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle gorau. Maent yn herio’r arweinwyr ar agweddau o’r ddarpariaeth a’r sefyllfa gyllidol yn fwriadus.

Cryfder nodedig yw datblygu'r  disgyblion i fod yn siaradwyr hyderus yn  Gymraeg. Arwyddair yr ysgol yw 'Cymraeg yw iaith ein taith', sy'n adlewyrchu'r balchder a'r frwdfrydedd sy'n bodoli tuag at yr iaith ar draws yr ysgol. Unwaith maent yn caffael  yr iaith o oed cynnar, maent yn sgwrsio'n naturiol gyda'i gilydd yn ystod gwersi ac, wrth chwarae yn ystod amser egwyl. Wrth i hyder y disgyblion ddatblygu ymhellach, maent yn siarad yn fyrlymus a chlywir acen yr ardal ar leferydd y disgyblion. Mae aelodau o'r Dreigiau, sef grŵp arwain y disgyblion, yn rhannu eu hangerdd tuag at yr iaith wrth gyflwyno geirfa i drigolion y gymuned leol. Maent yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac yn gosod arwyddion Cymraeg mewn busnesau lleol.

Mae staff yr ysgol wedi datblygu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Trwy gyfleoedd i ddisgyblion i gyfrannu eu syniadau ac i ddysgu'n aml yn yr awyr agored, mae disgyblion yn frwd i ddysgu ac maent yn falch iawn o'u gwaith. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol, gyda ffocws pwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn dda ac maent yn defnyddio medrau digidol cynyddol i gefnogi ac i gyflwyno eu gwaith. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen yn y ddwy iaith yn bwrpasol, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau ysgrifennu da.

Mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol ac yn falch o'u hanes a'u diwylliant. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau, moesau ac arferion mewn diwylliannau gwahanol mewn sesiynau cyd-addoli, gweithgareddau dosbarth a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos goddefgarwch, empathi a charedigrwydd yn naturiol o fewn darpariaeth gynhwysol yr ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu amrywiol yn effeithiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth o themâu gwahanol. Mae esboniadau clir a rhediad priodol i'r sesiynau dysgu gyda chydbwysedd da rhwng her a chymorth. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion  fynd i'r afael â chamsyniadau yn amserol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu gwaith eu hunain yn hyderus. Mae cysondeb ar draws yr ysgol yn yr adborth i ddisgyblion sy'n helpu'r disgyblion i adnabod camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion archwilio a datrys problemau drostynt eu hunain yn llai datblygedig oherwydd mewnbwn oedolion i'r gweithgareddau. Mae staff ar draws yr ysgol yn dueddol o or-arwain y dysgu sydd, yn ei dro, yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi disgyblion sydd ag ADY a'r rhai sy'n dod o aelwydydd incwm isel. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau

cychwyn yn drylwyr ac yn cynllunio amserlen gynhwysfawr o raglenni cefnogi pwrpasol sy’n ymateb i ofynion disgyblion yn fuddiol. Mae cynorthwywyr yn gweithio’n wybodus a medrus wrth gefnogi lles a dysgu’r disgyblion ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Mae’r ysgol yn defnyddio gwybodaeth a chysylltiadau ag asiantaethau allanol yn effeithiol i sicrhau’r gefnogaeth orau bosibl i’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol â rhieni. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau’r ysgol ei rhannu â nhw’n rheolaidd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2026